



**UK Research  
and Innovation**

**CYNLLUN IAITH GYMRAEG A BARATOWYD DAN DDEDDF YR IAITH GYMRAEG 1993**

**Derbyniodd Cynllun Iaith Gymraeg Ymchwil ac Arloesedd y Deyrnas Unedig gymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg ar 8 Ebrill 2021.**

*Ymchwil ac Arloesedd y Deyrnas Unedig*



## **1. Cyflwyniad**

- 1.1 Dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 (y Ddeddf) rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi cynllun yn amlinellu sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg. Yr egwyddor a sefydlwyd gan y Ddeddf oedd, y dylid trin y Saesneg a'r Gymraeg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru.
- 1.2 Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y bydd Ymchwil ac Arloesedd y Deyrnas Unedig (UKRI) yn rhoi'r egwyddor hon ar waith wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

## **2. Cefndir Ymchwil ac Arloesedd y Deyrnas Unedig**

- 2.1 Gan weithredu ar draws y Deyrnas Unedig gyda chyllideb gyfunol o fwy na £7 biliwn, mae UKRI yn dwyn ynghyd y Cyngor Ymchwil i'r Celfyddydau a'r Dyniaethau, Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol, Cyngor Ymchwil Peirianeg a Gwyddorau Ffisegol, y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, y Cyngor Ymchwil Meddygol, Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol, Cyngor Cyfleusterau Gwyddoniaeth a Thechnoleg, Ymchwil ac Arloesedd y Deyrnas Unedig Lloegr.
- 2.2 Mae UKRI yn gweithio mewn partneriaeth â phrifysgolion, sefydliadau ymchwil, busnesau, elusennau, a'r llywodraeth i greu'r amgylchedd gorau posib i ymchwil ac arloesedd ffynnu. Nod UKRI yw manteisio i'r eithaf ar gyfraniad pob un o'i wahanol rannau, gan weithio'n unigol ac ar y cyd. Ein cenhadaeth yw meithrin system ymchwil ac arloesi y mae pawb yn cael cyfle i gyfrannu ati ac elwa ohoni.

## **3. Cynllun Iaith Gymraeg UKRI**

- 3.1 Mae Cynllun Iaith Gymraeg UKRI yn adeiladu ar gynlluniau Cyngorau Ymchwil y Deyrnas Unedig a BIS (BEIS bellach), a oedd yn berthnasol i'r cyngorau ymchwil ac Innovate UK cyn i UKRI gael ei ffurfio. Cymeradwywyd cynllun Cyngorau Ymchwil y Deyrnas Unedig gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 3 Gorffennaf 2012, a chymeradwywyd cynllun BIS gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 28 Mai 2009.
- 3.2 Mae Cynllun Iaith Gymraeg UKRI yn disodli Cynlluniau Iaith Gymraeg unrhyw ran gyfansoddol o UKRI.
- 3.3 Paratowyd Cynllun Iaith Gymraeg UKRI yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg dan Adran 9 o'r Ddeddf ac fe'i cymeradwywyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 8 Ebrill 2021.



#### 4. Cwmpas y cynllun

4.1 Mae Cynllun Iaith Gymraeg UKRI yn berthnasol i bob rhan gyfansoddol o UKRI ac unrhyw un o'i sefydliadau a'i gyfleusterau y mae'n llwyr berchen arnynt.

#### 5. Cynllunio a darparu gwasanaethau

##### 5.1 Polisiau a mentrau

5.1.1 Bydd UKRI yn sicrhau bod ein polisiau, mentrau a gwasanaethau yn gyson â'r cynllun hwn. Bydd y mesurau a gynhwysir yn y cynllun hwn yn cael eu cymhwyso i bolisiau newydd neu ddiwygiedig pan gânt eu gweithredu.

5.1.2 Bydd UKRI yn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ymlaen llaw ynglŷn ag unrhyw bolisiau neu fentrau newydd a fydd yn effeithio ar ei Gynllun Iaith Gymraeg, neu a all effeithio ar gynlluniau sefydliadau eraill.

5.1.3 Wrth ddiwygio neu lunio polisiau a mentrau newydd, bydd UKRI yn:

- Asesu effaith ieithyddol unrhyw bolisiau a mentrau newydd neu ddiwygiedig ac yn sicrhau eu bod yn gyson â'r Cynllun Iaith Gymraeg.
- Sicrhau, lle bo'n briodol, bod y mesurau a gynhwysir yn y Cynllun yn cael eu cymhwyso i bolisiau a mentrau newydd neu ddiwygiedig pan gânt eu gweithredu.
- Sicrhau nad yw unrhyw bolisi neu fenter newydd neu ddiwygiedig yn tansilio'r Cynllun Iaith Gymraeg neu allu sefydliad i gydymffurfio â'i Gynllun Iaith Gymraeg ei hun neu [Safonau'r Gymraeg](#).
- Ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ymlaen llaw ynglŷn â chynigion a fydd yn effeithio ar y Cynllun neu allu sefydliad i gydymffurfio â'i Gynllun Iaith Gymraeg ei hun neu [Safonau'r Gymraeg](#). Ni fydd y Cynllun yn cael ei newid heb gytundeb y Comisiynydd.
- Sicrhau y bydd y rheiny sydd ynghlwm â llunio polisi (yng Nghymru a'r tu allan iddi) yn ymwybodol o'r Cynllun a chyfrifoldebau UKRI dan y Ddeddf.
- Cynnwys y Cynllun Iaith Gymraeg fel rhan o hyfforddiant sefydlu i bob aelod newydd o staff a fydd wedi'i leoli yng Nghymru neu'n ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â'r cyhoedd yng Nghymru.
- Sicrhau bod y polisiau yn symud UKRI yn nes at weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb.

##### 5.2 Darparu gwasanaethau



- 5.2.1 Bydd UKRI yn sicrhau, lle bo'n briodol a rhesymol ymarferol, bod eu gwasanaethau yng Nghymru ar gael yn Gymraeg a byddant yn rhoi gwybod i'r cyhoedd yng Nghymru pan maent ar gael.
- 5.2.2 Er nad ydynt yn gallu cynnig y dewis hwn bob amser ar hyn o bryd, mae UKRI wedi ymrwymo i roi trefniadau ar waith a fydd yn y pen draw yn eu galluogi i ddarparu mwy o wasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg a Saesneg. Bydd UKRI hefyd yn archwilio opsiynau i gefnogi siaradwyr Cymraeg i sicrhau nad ydynt yn wynebu rhagfarn o ganlyniad i iaith.

### 5.3 Safonau ansawdd

- 5.3.1 Bydd gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg a Saesneg o'r un ansawdd ac yn cael eu darparu o fewn yr un terfyn amser. Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau a gaiff eu contractio allan, rhoi trwyddedau a chaniatâd arall.
- 5.3.2 Wrth asesu a mesur y safonau ac effeithiolrwydd ei wasanaethau yng Nghymru, bydd Ymchwil ac Arloesedd y Deyrnas Unedig yn defnyddio'r un dangosyddion perfformiad â'r rheiny a ddefnyddir mewn perthynas â'i wasanaethau yn Saesneg. Bydd yr ymrwymiad hwn yn cael ei ddatgan yn gyhoeddus ar ei wefannau perthnasol, mewn adroddiadau blynyddol a chyhoeddiadau eraill fel sy'n briodol.

### 5.4 Dyfarnu grantiau a benthyciadau

- 5.4.1 Pan mae UKRI yn dyfarnu grantiau a benthyciadau i weithgareddau sy'n effeithio ar gyhoedd yng Nghymru, byddwn lle bo'n briodol yn cynnwys amodau mewn perthynas â'r defnydd o'r Gymraeg. Wrth wneud hyn, bydd UKRI yn rhoi sylw i gyngor ac arweiniad gan Gomisiynydd y Gymraeg.

## 6. Ymdrin â'r cyhoedd Cymraeg eu hiaith

### 6.1 Cyfathrebu ysgrifenedig (yn cynnwys gohebiaeth electronig)

- 6.1.1 Mae UKRI yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a/neu Saesneg:
- Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn derbyn ymateb wedi'i lofnodi yn Gymraeg. Bydd gohebiaeth ddwyieithog yn derbyn ymateb wedi'i lofnodi yn ddwyieithog.
  - Bydd unrhyw ymrwymadau i ddarparu ymatebion ysgrifenedig o fewn amserlen benodol yr un fath i ohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. Ar gyfer ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth bydd UKRI yn ymateb o fewn yr 20 diwrnod gwaith statudol.
  - Bydd pob gohebiaeth gydag aelod o'r cyhoedd yn cael ei chychwyn yn ei ddewis iaith, Cymraeg neu Saesneg, os yw'n hysbys.



- Bydd pob llythyr (e.e. cylchlythyrau) a ddsberthir i'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.
- 6.1.2 Bydd trefniadau yn cael eu gwneud i gyfieithu gohebiaeth yn ôl yr angen i ymateb i ohebiaeth o fewn y cyfnod amser cytunedig ac yn yr iaith wreiddiol. Bydd UKRI yn anfon pob deunydd sydd angen ei gyfieithu at gyfieithydd proffesiynol sydd wedi cytuno i gydymffurfio â'r cyfnod amser cytunedig.
- 6.1.3 Os oes rhaid cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg o unrhyw ohebiaeth ar wahân, ein trefn arferol fydd sicrhau bod y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd. Bydd amgaeadau a anfonir gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog, lle bo'n bosibl.

## 6.2 Cyflwyno cais am grant

- 6.2.1 Cyflwynir ceisiadau i UKRI drwy system gyflwyno electronig, gyda phenderfyniadau ar gyllid yn cael eu gwneud drwy brosesau adolygiad gan gyfoedion y Cyngor. Mae UKRI yn croesawu a derbyn ceisiadau yn Gymraeg a bydd yn nodi hyn yn glir mewn canllawiau ac ar y system gyflwyno electronig. Mae UKRI hefyd yn fodlon archwilio opsiynau i gefnogi ymchwilwyr Cymraeg eu hiaith, fesul achos, i ddatblygu drwy'r cais ac adolygu prosesau.
- 6.2.2 Bydd ceisiadau ymchwil a ysgrifennir yn Gymraeg yn cael eu cyfieithu fel rheol i'r Saesneg a'u hadolygu gan gyfoedion yn Saesneg, yn unol â chymwyseddau iaith adolygwyr cyfoed arbenigol.
- 6.2.3 Bydd UKRI yn adolygu'r nifer o geisiadau Cymraeg, yn cynnwys lefelau'r galw am gymorth i geisiadau Cymraeg dros y pum mlynedd diwethaf, ac os yw dros 10% o'r ceisiadau yn Gymraeg, bydd UKRI yn ymchwilio i ddulliau i roi prosesau a systemau ar waith a fydd yn galluogi ac yn hwyluso ceisiadau dwyieithog. Bydd hyn hefyd yn cael ei ymchwilio iddo'n llawn wrth uwchraddio'r prosesau cyflwyno cais am grant a'r systemau electronig a ddefnyddir ar hyn o bryd.

## 6.3 Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

- 6.3.1 Yn y dyfodol, wrth i UKRI ddatblygu neu gynhyrchu systemau TGCh, byddwn yn ystyried cyngor ac arweiniad a ddarperir gan y Comisiynydd ar TGCh. Bydd yr angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg, a gweithredu yn unol â'r cynllun hwn, yn cael ei ddiwallu wrth i ni ddatblygu, dylunio neu brynu cynnyrch a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

## 6.4 Cyfathrebu dros y ffôn



- 6.4.1 Ar hyn o bryd, nid oes gan UKRI bresenoldeb corfforol yng Nghymru ac o ganlyniad i'r ffaith mai dim ond nifer cyfyngedig o staff sy'n gallu siarad Cymraeg, ni all y sefydliad gynnig gwasanaeth cyfathrebu dros y ffôn yn Gymraeg.
- 6.4.2 Pan fydd aelod o'r cyhoedd yn dymuno siarad Cymraeg, bydd aelod o staff yn egluro'n gwrtais y sefyllfa hon ac yn cynnig yr opsiynau canlynol i'r unigolyn:
- i) gwneud yr ymholiad yn Saesneg, a derbyn ymateb ysgrifenedig yn Gymraeg
  - ii) cyflwyno ymholiad ysgrifenedig yn Gymraeg, a derbyn ymateb ysgrifenedig yn Gymraeg
  - iii) parhau â'r alwad yn Saesneg
- 6.3.3 Pan fyddwn yn sefydlu llinellau cymorth neu gyfleusterau tebyg, i roi gwybodaeth, gwasanaethau neu gymorth yn benodol i'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ddarparu gwasanaethau iaith Gymraeg. Bydd hyn yn cael ei hysbysebu ochr yn ochr â'r gwasanaeth Saesneg. Bydd y ddau wasanaeth yn rhannu'r un rhif ffôn ac yn agored i'r un safonau ansawdd.
- 6.3.4 Pe bai UKRI yn sefydlu presenoldeb corfforol yng Nghymru, byddai'n croesawu cyfathrebu dros y ffôn yn y lleoliad hwnnw yn Gymraeg neu Saesneg. Byddai'r alwad yn cael ei hateb yn ddwyieithog a lle mae aelod o staff sy'n gallu siarad Cymraeg ar gael, byddai galwadau yn cael eu hateb yn iaith ddewisol y galwr.
- 6.3.5 Lle nad oes aelod o staff sy'n gallu siarad Cymraeg ar gael ar adeg yr alwad (e.e. allan o'r swyddfa), byddai trefniant yn cael ei wneud i aelod o staff sy'n gallu siarad Cymraeg ddychwelyd yr alwad, oni bai fod y galwr yn fodlon tafod ei fater drwy gyfrwng y Saesneg.
- 6.3.6 Os nad oes aelodau o staff sy'n gallu siarad Cymraeg ar gael i ddelio â mater penodol, bydd yr aelod o staff sy'n ateb yr alwad yn egluro'n gwrtais y sefyllfa hon ac yn cynnig y dewis i'r unigolyn gyflwyno ei ymholiad yn ysgrifenedig yn Gymraeg fel ei fod yn gallu cael ymateb ysgrifenedig yn Gymraeg; egluro'r ymholiad yn llawn yn Saesneg a derbyn ymateb ysgrifenedig yn Gymraeg neu barhau â'r alwad yn Saesneg.

## 6.5 Cyfarfodydd gyda'r cyhoedd yng Nghymru

- 6.5.1 Wrth gynnal cyfarfodydd ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, bydd UKRI yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg a Saesneg. Wrth hysbysebu'r cyfarfod, bydd y deunydd darllen perthnasol (megis cyhoeddiadau a hysbysebion) yn nodi hyn ac yn ddwyieithog.
- 6.5.2 Mae UKRI wedi ymrwymo i sicrhau bod cyfieithu ar y pryd ar gael i siaradwyr Cymraeg a/neu Saesneg lle mae angen amlwg i wneud hynny. Anogir darpar fynychwyr i gysylltu ag UKRI i fynegi diddordeb mewn gwasanaethau cyfieithu drwy wahoddiad cyn unrhyw ddigwyddiad neu gyfarfod yng Nghymru, fel bod UKRI yn gallu asesu'r angen am y gwasanaethau hynny. Bydd gwasanaethau cyfieithu yn cael eu darparu ar gyfer digwyddiadau neu gyfarfodydd yng Nghymru lle mae 10% neu fwy o ddarpar fynychwyr



wedi mynegi diddordeb mewn gwasanaethau cyfieithu bythefnos cyn y cyfarfod neu'r digwyddiad.

- 6.5.3 Mewn cyfarfodydd gyda'r cyhoedd yng Nghymru, ac yn unol â'r system sgorio yn [Atodiad 2](#), bydd y rhan fwyaf o'r deunydd darllen ac arddangos ar gael yn Gymraeg a Saesneg ond, lle nad yw dogfennau cysylltiedig ar gael, bydd UKRI yn darparu cyfieithiadau ysgrifenedig ar gais.
- 6.5.4 Lle mae UKRI yn defnyddio cysylltiadau fideo ar gyfer cynnal cyfarfodydd ag aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru, byddant yn gwahodd y rheiny sy'n mynychu sy'n dymuno siarad yn Gymraeg i roi gwybod i drefnydd y digwyddiad ymlaen llaw, fel y gellir trefnu gwasanaethau cyfieithu.
- 6.5.5 Wrth drefnu cyfarfod wyneb yn wyneb â'r cyhoedd yng Nghymru ac ni ellir cynnig dewis Cymraeg, bydd y sefyllfa yn cael ei hegluro'n gwrtais, a bydd y mynychwr yn cael yr opsiwn o naill ai i:
- i) drafod y mater yn Saesneg; neu
  - ii) anfon ei ymholiad ar ffurf ysgrifenedig yn Gymraeg, a fydd yn derbyn ymateb ysgrifenedig yn Gymraeg.

## 6.6 Trafodion eraill gyda'r cyhoedd yng Nghymru

- 6.6.1 Pan fyddwn yn cynnal arolygon cyhoeddus yng Nghymru, y drefn arferol fydd sicrhau bod pob agwedd ar gyfathrebu gyda'r cyhoedd yn ddwyieithog. Lle mae'n ymarferol, gofynnir i ymatebwyr a ydynt yn dymuno ymateb i'r arolwg yn Gymraeg neu Saesneg.
- 6.6.2 Pan fyddwn yn trefnu seminarau, cyrsiau hyfforddiant neu ddigwyddiadau tebyg wedi'u hanelu at y cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn asesu'r angen i ddarparu deunyddiau cysylltiedig yn Gymraeg yn unol â'r system sgorio a nodir yn [Atodiad 2](#). Bydd arddangosfeydd clyweledol, teithiau clywedol neu gyfryngau rhyngweithiol a baratown i'r cyhoedd Cymraeg eu hiaith yn ddwyieithog.

## 7. Ein hwyneb cyhoeddus yng Nghymru

### 7.1 Hunaniaeth gorfforaethol

- 7.1.1 Ar gyfer cynnal ei fusnes yng Nghymru, bydd UKRI yn defnyddio delwedd a hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog (UK Research and Innovation / *Ymchwil ac Arloesedd y Deyrnas Unedig*). Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr enw corfforaethol a gwybodaeth safonol ar ddeunyddiau ysgrifennu, er enghraifft dogfennau a gynhyrchir yn ddwyieithog neu'n Gymraeg a phapur â phennawd a ddefnyddir ar gyfer gohebiaeth â'r cyhoedd yng Nghymru.



- 7.1.2 Lle cynhyrchir dogfennau'n ddwyieithog neu'n Gymraeg bydd enw'r Cynghorau yn aros yn Saesneg i sicrhau hunaniaeth brand y Cyngor unigol ond bydd disgrifydd yn Gymraeg (e.e. Natural Environment Research Council / *Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol*).

## 7.2 Cyfathrebu ar y we

- 7.2.1 Bydd gwefan UKRI ac unrhyw wefannau cysylltiedig eraill yn cynnwys deunydd yn Gymraeg a Saesneg yn unol â'r system sgorio a ddarperir yn [Atodiad 2](#). Bydd UKRI yn sicrhau bod unrhyw ddeunydd Cymraeg ar wefan UKRI neu gynnwys UKRI a reolir gan UKRI ar wefannau cysylltiedig yn hawdd ei gyrraedd.
- 7.2.2 Bydd gwefan UKRI a gwefannau cysylltiedig yn cynnwys tudalen 'About us' (*Amdanom ni*) Gymraeg gyda chyflwyniad i'r sefydliad yn Gymraeg a gwybodaeth gyswllt.
- 7.2.3 Dylai aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno gwneud cais am adnoddau nad ydynt ar gael yn Gymraeg fel arfer, e-bostio [cymraeg@ukri.org](mailto:cymraeg@ukri.org) neu [communications@ukri.org](mailto:communications@ukri.org) i wneud eu cais a bydd UKRI yn ymateb.
- 7.2.4 Bydd UKRI yn edrych ar roi ystod ehangach o ddeunyddiau yn Gymraeg i'r cyhoedd yng Nghymru dros amser. Gall hyn gynnwys gwybodaeth am waith ymchwil perthnasol sy'n cael ei gynnal yng Nghymru ar hyn o bryd, adnoddau i ysgolion a newyddion perthnasol yng Nghymru gan UKRI.

## 7.3 Arwyddion

- 7.3.1 Nid oes gan UKRI bresenoldeb corfforol yng Nghymru. Pe bai hynny'n newid, bydd UKRI yn sicrhau bod yr holl arwyddion gwybodaeth newydd a'r rheiny sy'n disodli hen arwyddion o fewn cwrtil eiddo UKRI yn Gymraeg a Saesneg.
- 7.3.2 Bydd UKRI yn sicrhau bod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gydradd yn nhermau maint, ansawdd, amlygrwydd ac eglurdeb. Bydd arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, os defnyddir rhai, yn gydradd yn nhermau maint, ansawdd, amlygrwydd ac eglurdeb.

## 7.4 Deunydd cyhoeddedig

- 7.4.1 Bydd yr holl ddeunyddiau cyhoeddedig sy'n gysylltiedig â gweithgareddau craidd UKRI wedi'u hanelu'n gyfan gwbl neu'n bennaf at y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog boed wedi'u hargraffu neu ar gael yn electronig.
- 7.4.2 Bydd UKRI yn ystyried sicrhau bod deunyddiau eraill gyda chynulleidfa ledled y Deyrnas Unedig ar gael yn Gymraeg a Saesneg fesul achos. Wrth benderfynu pa ddeunyddiau eraill y gellid eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg, bydd UKRI yn ystyried ffactorau megis maint a natur y ddogfen a'r gynulleidfa darged, pa mor eang y caiff ei dosbarthu, costau





cyfieithu, a'r galw tebygol. Mae [Atodiad 2](#) yn nodi pa ddogfennau fydd yn ddwyieithog, yn cael eu cyhoeddi ar wahân, neu'n Saesneg yn unig.

- 7.4.3 Bydd ceisiadau i gyfieithu deunyddiau sydd ar gael yn Saesneg yn unig, oherwydd nad yw eu cynnwys wedi'i anelu at y cyhoedd, yn cael eu hystyried fel nad oes neb dan anfantais o ganlyniad i iaith.
- 7.4.4 Lle mae UKRI yn cyhoeddi deunydd yn Gymraeg a Saesneg, bydd y ddwy fersiwn yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd ac yn gymaradwy. Lle cyhoeddir deunyddiau yn Gymraeg a Saesneg ar wahân, bydd pob fersiwn yn nodi'n glir fod y deunydd ar gael yn yr iaith arall ac yr un mor hygyrch. Os nad yw ar gael yn rhad ac am ddim, ni fydd cost dogfen ddwyieithog ddim mwy na chost cyhoeddiad iaith sengl a bydd pris fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân yr un fath.
- 7.4.5 Bydd yr holl staff sydd ynghlwm â chreu a dylunio cyhoeddiadau yn cael canllawiau ysgrifenedig (e.e. Canllaw i Ddyluniad Dwyieithog y Comisiynydd) ar gyfer delio â chyhoeddiadau dwyieithog.
- 7.4.6 Bydd yr holl gyhoeddiadau dwyieithog a fersiynau Cymraeg ar wahân yn cael eu prawf ddarllen gan gyfieithu cymwys i sicrhau cysondeb o ran safon y Gymraeg.
- 7.4.7 Bydd yr uchod hefyd yn berthnasol i ddeunydd ar gael yn electronig ar ein gwefannau neu fel arall.

#### 7.5 Ffurflenni a Deunydd Esboniadol Cysylltiedig

- 7.5.1 Bydd UKRI yn sicrhau bod yr holl ffurflenni a'r deunydd esboniadol cysylltiedig wedi'u hanelu at y cyhoedd yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd.
- 7.5.2 Pan gyhoeddir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd UKRI yn sicrhau bod yr holl gyhoeddiadau yn cydymffurfio â'r ymrwymadau uchod a bod y ddwy fersiwn yr un mor hygyrch. Bydd hyn yn cynnwys ffurflenni rhyngweithiol a gyhoeddir ar ein gwefan. Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd pob fersiwn yn nodi'n glir fod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.
- 7.5.3 Pan fydd sefydliadau eraill yn dosbarthu ffurflenni ar ein rhan, byddwn yn sicrhau eu bod yn gwneud hynny yn unol â'r uchod.

#### 7.6 Hysbysiadau i'r wasg

- 7.6.1 Bydd pob datganiad a hysbysiad i'r wasg yn cael ei gyhoeddi'n Saesneg i'r cyfryngau hynny y gwyddys eu bod yn uniaith Saesneg ac yn Gymraeg i'r cyfryngau hynny y gwyddys eu bod yn uniaith Gymraeg.



7.6.2 Bydd datganiadau i'r wasg yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi'n Gymraeg a Saesneg. Os oes angen cyhoeddi datganiad i'r wasg ar unwaith sy'n gwahardd cyfieithu, bydd y fersiwn ddwyieithog yn dilyn naill ai ar yr un diwrnod neu o fewn 24 awr.

### 7.7 Y cyfryngau cymdeithasol

7.7.1 Bydd UKRI yn defnyddio'r Saesneg ar gyfer y rhan fwyaf o'i negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, wrth hysbysebu gweithgareddau yng Nghymru, bydd UKRI yn postio yn Gymraeg mewn modd sy'n trin y ddwy iaith yn gydradd.

7.7.2 Os yw person yn cysylltu ag UKRI dros y cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, bydd UKRI yn ymateb yn Gymraeg (os oes angen ateb) ac yn briodol.

### 7.8 Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebu

7.8.1 Bydd UKRI yn cynnal unrhyw ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebu wedi'u hanelu at y cyhoedd yng Nghymru, yn ddwyieithog (e.e. unrhyw hysbysebion teledu, sinema neu radio) ac mewn modd sy'n trin y ddwy iaith yn gydradd. Byddant yn gwneud yr un fath gyda gwybodaeth gyhoeddus. Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddwy fersiwn yn gydradd yn nhermau maint, amlygrwydd ac ansawdd. Bydd y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd ac yr un mor hygyrch.

7.8.2 Bydd hysbysebion ac ymgyrchoedd a osodir mewn cyhoeddiadau Cymraeg neu sy'n ymddangos yn y cyfryngau Cymraeg (e.e. S4C, Radio Cymru, BBC Cymru Fyw) yn Gymraeg a'n trefn arferol fydd osgoi defnyddio isdeitlau Cymraeg neu drosleisio hysbysebion i'r Gymraeg.

7.8.3 Bydd y canlynol yn cael ei gynhyrchu'n ddwyieithog:

- Pob deunydd cyhoeddusrwydd wedi'i anelu at y cyhoedd yng Nghymru
- Post uniongyrchol yn cynnwys deunydd hyrwyddo ac arolygon
- Hysbysebu yn y wasg/cyfryngau a hysbysebu ar bosteri
- Arolygon Cyhoeddus
- Stondinau arddangos a gwybodaeth

7.8.4 Bydd llinellau ffôn a dulliau eraill o ymateb i ymgyrchoedd sy'n targedu Cymru yn ddwyieithog, neu'n cynnwys gwasanaeth ymateb ar wahân yn Gymraeg.

### 7.9 Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff

7.9.1 Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff a osodir mewn papurau newydd (neu gyfryngau tebyg) cyfrwng Saesneg a ddsberthir yn bennaf neu'n llwyr yng Nghymru'n ddwyieithog, neu byddant yn ymddangos fel fersiynau



Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd hysbysiadau mewn cyhoeddiadau cyfrwng Cymraeg yn ymddangos yn Gymraeg.

- 7.9.2 Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gydradd o ran eu fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd - boed wedi'u cynhyrchu fel un fersiwn ddwyieithog, neu fel hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân.
- 7.9.3 Mae UKRI wedi ymrwymo i bolisi cyfle cyfartal ar gyfer ein gweithwyr ac ymgeiswyr am waith. Wrth recriwtio staff, mae UKRI yn croesawu siaradwyr Cymraeg i ymuno â'i weithlu. Wrth recriwtio ar gyfer unrhyw swyddi â chysylltiadau helaeth a rheolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn ystyried a ddylai rhuglder yn y Gymraeg fod yn allu dymunol neu hanfodol a byddwn yn nodi hynny yn yr hysbyseb swydd.
- 7.9.4 Bydd pob hysbyseb a osodir mewn cyhoeddiadau cyfrwng Saesneg sy'n cylchredeg yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg. Bydd hysbysebion ar gyfer swyddi lle mae rhuglder yn y Gymraeg yn gymhwyster hanfodol yn ymddangos yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau cyfrwng Cymraeg, ac yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau cyfrwng Saesneg.
- 7.9.5 Bydd hysbysebion ar gyfer swyddi lle mae rhuglder yn y Gymraeg yn gymhwyster dymunol yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog mewn cyhoeddiadau cyfrwng Saesneg sy'n cylchredeg yng Nghymru, yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau cyfrwng Cymraeg ac yn Saesneg mewn cyhoeddiadau sy'n cylchredeg ledled y Deyrnas Unedig.
- 7.9.6 Bydd hysbysebion ar gyfer swyddi lle nad oes gofyniad ieithyddol wedi'i nodi yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog mewn cyhoeddiadau dwyieithog sy'n cylchredeg yng Nghymru, ac yn Saesneg yn unig mewn cyhoeddiadau cyfrwng Saesneg sy'n cylchredeg ledled y Deyrnas Unedig.
- 7.9.7 Bydd yr holl ddeunyddiau perthnasol sy'n gysylltiedig â'r swyddi a hysbysebir, lle mae sgiliau Cymraeg wedi'u nodi fel hanfodol neu ddymunol, ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

## **8. Gweithredu'r cynllun**

### **8.1 Trefniadau gweinyddol**

- 8.1.1 Mae awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth llwyr holl aelodau Pwyllgor Gweithredol UKRI y tu ôl i'r mesurau yn y cynllun hwn. Y rheolwyr fydd yn gyfrifol am weithredu'r agweddau hynny ar y cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith, neu waith eu tîm. Pennaeth Llywodraethu UKRI fydd yn cydlynu'r gwaith sy'n angenrheidiol i gyflawni, monitro ac adolygu'r cynllun hwn.
- 8.1.2 Paratoir cynllun gweithredu manwl o ran sut y bydd UKRI yn gweithredu'r cynllun, a chaiff ei ddiweddarau'n rheolaidd. Daw'r cynllun gweithredu i rym ar y dyddiad pan ddaw'r cynllun i rym. Bydd y cynllun yn cynnwys targedau, amserlenni ac adroddiad ar gynnydd yn erbyn pob targed.



- 8.1.3 Rhoddir cyhoeddusrwydd i'r cynllun ymysg ein staff, ac ymysg y cyhoedd yng Nghymru. Caiff ei gyhoeddi hefyd ar ein gwefannau.
- 8.1.4 Bydd UKRI yn cyflogi cyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd llawrydd cymwys sy'n gallu darparu gwasanaeth o safon uchel yn y Gymraeg.

## 8.2 Staffio

- 8.2.1 Ar hyn o bryd nid oes gan UKRI ganolfan weinyddol wedi'i lleoli yng Nghymru a dim ond nifer cyfyngedig o staff sy'n meddu ar sgiliau dwyieithog sydd gennym. Byddwn yn ceisio gwybodaeth am sgiliau Cymraeg staff presennol, ac ymgeiswyr am waith.
- 8.2.2 Byddwn yn ystyried cefnogi a chyllido hyfforddiant i staff, sydd fel rhan o'u dyletswyddau, yn dod i gysylltiad helaeth a rheolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru - ac sy'n dymuno dysgu, neu wella eu Cymraeg. Byddwn yn caniatáu i staff fynychu cyrsiau yn ystod oriau gwaith lle bo angen.
- 8.2.3 Lle mae'n ymarferol, byddwn yn ystyried darparu hyfforddiant iaith Gymraeg i ddatblygu gallu staff, sydd fel rhan o'u dyletswyddau, yn dod i gysylltiad helaeth a rheolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru.

## 8.3 Gwasanaethau a ddarperir ar ran UKRI i'r cyhoedd yng Nghymru

- 8.3.1 Mae UKRI yn sicrhau bod unrhyw gytundebau neu drefniadau a wneir gyda thrydydd partion sy'n berthnasol i ddarpariaeth gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru yn gyson â thelerau'r Cynllun hwn. Mae'r ymrwymiad hwn yn cynnwys gwasanaethau sy'n cael eu contractio allan.
- 8.3.2 Lle mae'n berthnasol, bydd gofynion ynghylch yr iaith Gymraeg yn ffurfio rhan o'r dogfennau tendro a'r contractau, y cytundebau neu'r trefniadau dilynol sy'n codi. Bydd angen i drydydd partion gadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'r mesurau perthnasol o fewn y Cynllun.

## 8.4 Partneriaethau

- 8.4.1 Pan fydd UKRI yn gweithredu fel arweinydd strategol ac ariannol o fewn partneriaeth sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, bydd UKRI yn sicrhau bod ei bartner sy'n darparu yn cydymffurfio â'r cynllun hwn, ac eithrio lle mae'r ymrwymadau yng Nghynllun Iaith Gymraeg y partner yn gryfach. Yn yr achosion hyn, bydd y gwasanaeth yn cydymffurfio â chynllun y partner sy'n darparu.



8.4.2 Pan fydd UKRI yn ymuno â phartneriaeth sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru dan arweinyddiaeth sefydliad arall, bydd ein mewnbwn i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn neu gynllun partner sy'n darparu os yw'r ymrwymadau o fewn y cynllun hwnnw'n gryfach.

## **9. Cyhoeddi'r Cynllun**

9.1 Bydd UKRI yn sicrhau bod y cyhoedd a'i bartneriaid yng Nghymru yn ymwybodol o fodolaeth y Cynllun a'i gynnwys. Mabwysiadir y dulliau canlynol o gyhoeddi'r Cynllun:

- Bydd y Cynllun yn cael ei gyhoeddi ar fewnrwydi a gwefannau perthnasol
- Bydd testun yn nogfennau safonol UKRI yn cyfeirio at y Cynllun
- Bydd pob aelod o staff perthnasol yn cael arweiniad am y Cynllun
- Bydd testun yn cael ei baratoi a'i roi ar wefan UKRI

9.2 Bydd y Cynllun hwn yn dod i rym yn ffurfiol cyn gynted â bod y cynllun wedi cael ei gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r cynllun gweithredu ar ddiwedd y Cynllun yn nodi pryd bydd gwasanaethau gwahanol ar gael.

## **10. Monitro, adolygu a diwygio'r cynllun**

10.1 Byddwn yn monitro ein cynnydd wrth weithredu'r Cynllun hwn yn erbyn y targedau a nodir yn y cynllun gweithredu cysylltiedig. Cyfrifoldeb Pennaeth Llywodraethu UKRI fydd gweithredu a monitro'r Cynllun.

10.2 Byddwn yn anfon adroddiadau monitro blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg, yn amlinellu'r cynnydd wrth weithredu'r cynllun hwn. Bydd yr adroddiad monitro yn galluogi UKRI i ateb y ddau gwestiwn sylfaenol canlynol:

- i) A yw UKRI yn cydymffurfio â'r Cynllun?
- ii) Pa mor dda y mae'n cyflawni hyn?

10.3 Bydd y gwaith o fonitro'r cynllun yn weithgaredd parhaus, wedi'i strwythuro ac os bydd gwendidau'n cael eu canfod, bydd UKRI yn diweddarau neu'n ychwanegu at y cynllun gweithredu er mwyn gwella'r sefyllfa.

10.4 Bydd UKRI yn paratoi adroddiad gwerthuso a fydd yn gwerthuso perfformiad o ran gweithredu'r cynllun dros y tair blynedd cyntaf. Er mwyn adolygu a diweddarau ei Gynllun Iaith Gymraeg, bydd yr adroddiad hwn:

- i) Yn rhoi trosolwg o berfformiad a chydymffurfio â'r cynllun, o ran cyflenwi gwasanaeth a rheoli'r cynllun.
- ii) Yn amlinellu blaenoriaethau UKRI ar gyfer y cyfnod sy'n dilyn gydag amserlen ddiwygiedig ar gyfer gweithredu'r mesurau yn y Cynllun.



10.5 Bydd UKRI yn adolygu'r cynllun hwn ar ôl tair blynedd ers iddo ddod i rym. Gellir adolygu neu ddiwygio'r cynllun hwn ar unrhyw bryd oherwydd newidiadau i'n swyddogaethau, neu i'r amgylchiadau y mae UKRI yn cynnal y swyddogaethau hynny, neu am unrhyw reswm arall. Ni wneir unrhyw newidiadau i'r cynllun hwn heb gymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg.

#### **11. Cwynion ac Awgrymiadau ar gyfer Gwelliant**

11.1 Dylid cyfeirio cwynion sy'n ymwneud â'r cynllun hwn, neu awgrymiadau ar gyfer gwelliant, at ein Tîm Cyfathrebu yn y cyfeiriad post neu e-bost canlynol:

UK Research and Innovation  
Polaris House  
Swindon  
SN2 1FL

E-bost: [cymraeg@ukri.org](mailto:cymraeg@ukri.org) neu [complaints@ukri.org](mailto:complaints@ukri.org)

11.2 Byddwn yn cydweithredu â Chomisiynydd y Gymraeg er mwyn datrys unrhyw gwynion ac yn ystod unrhyw ymchwiliadau a gynhelir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg.



**Atodiad 1: Cynllun Gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg UKRI**

Targed	Cam Gweithredu	Amserlen
Cyfathrebiadau Mewnol	Cyhoeddi diweddariad yng nghylchlythyr staff UKRI er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o ddiben y Cynllun Iaith Gymraeg ac yn ei ddeall.	Yn lansiad y cynllun
Mewnrwyd Staff	Darparu dolen i'r cynllun ar wefan UKRI a manylion cyswllt i Siaradwyr Cymraeg.	Yn lansiad y cynllun
Cyfieithu	Datblygu rhestr o gyfieithwyr proffesiynol at ddefnydd ein Cynghorau. Cyhoeddi manylion cyswllt ar fewnrwyd UKRI.	Yn lansiad y cynllun
Cyflwyno cais am grant	Datganiad yn nodi bod UKRI yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg i'w gynnwys ar ganllawiau ceisiadau am grant a'r system electronig  Adolygu'r ganran o geisiadau Cymraeg, yn cynnwys y galw am gymorth i geisiadau Cymraeg.  Ymchwilio i ddulliau i roi prosesau a systemau ar waith a fydd yn galluogi ac yn hwyluso ceisiadau dwyieithog.	Yn lansiad y cynllun  Yn flynyddol  Yn ôl yr angen yn unol â'r ymrwymïadau a nodir yn 6.2
Delio â galwadau	Atebir pob galwad gyda chyfarfodiad dwyieithog yn y cyfleusterau a weithredir gan UKRI yng Nghymru.	Parhaus
Rhyngwrwyd	Bydd UKRI yn cynyddu faint o gynnwys Cymraeg a gyhoeddir ar ei wefan, yn ymwneud â gwybodaeth esboniadol am UKRI, y Cynghorau, a'n gweithgareddau	Parhaus
Cyfarfodydd Cyhoeddus	Pob gwahoddiad i gyfarfodydd a gynhelir yng Nghymru a deunydd cyhoeddusrwydd cysylltiedig i gynnwys datganiad yn croesawu cyfraniadau gan siaradwyr Cymraeg.	Parhaus
Arolwg Staff	Cynnal arolwg o staff UKRI i adnabod siaradwyr Cymraeg posib	Yn lansiad y cynllun
Llywodraethu	Cyflwyno Eitem Sefydlog flynyddol ar agenda'r Pwyllgor Pobl, Cyllid a Gweithrediadau, i gynnwys papur mewnol ar gydymffurfiaeth UKRI â'r cynllun.	Yn flynyddol
Cynnal a Chadw	Ailedrych ar y cynllun a chynhyrchu adroddiad gwerthuso ymhen tair blynedd.	3 blynedd o ddyddiad



		cyhoeddi'r cynllun
--	--	--------------------

**Atodiad 2: Canllawiau a Meini Prawf yn ymwneud â pha Ddogfennau fydd yn Ddwyieithog neu'n Saesneg yn Unig**

**Categori A: Eitemau fydd yn ddwyieithog**

- Llyfrynnau, taflenni neu bamffledi wedi'u hanelu at y cyhoedd yng Nghymru
- Llenyddiaeth yn rhoi cyhoeddusrwydd i gyfarfodydd neu ddigwyddiadau yng Nghymru
- Arwyddion a phosteri gwybodaeth yng Nghymru
- Cylchlythyrau a llythyrau safonol i'r cyhoedd yng Nghymru
- Dogfennau ymgynghori wedi'u hanelu at y cyhoedd yng Nghymru
- Cylchlythyrau sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd yng Nghymru (yn cynnwys ar y we)
- Holiaduron ac arolygon ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru
- Ffurflenni a nodiadau esboniadol wedi'u hanelu at y cyhoedd yng Nghymru

**Categori B: Eitemau i'w cyhoeddi mewn ieithoedd ar wahân**

- Gwefan (gweler adran 7.2 yn y Cynllun Iaith Gymraeg ar gyfer cynnwys penodol)
- Hysbysebion yn y wasg yng Nghymru
- Datganiadau a hysbysiadau i'r wasg sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd yng Nghymru
- Crynodebau gweithredol o ddogfennau arwyddocaol sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd yng Nghymru
- Dogfennau ymgynghori

**Categori C: Eitemau lle defnyddir meini prawf i bennu eu statws**

- Papurau pwyllgor
- Adroddiadau blynyddol
- Adroddiadau
- Papurau ymchwil
- Strategaethau
- Pecynnau hyfforddiant i'w defnyddio gan y sector
- Deunydd gyrfaoedd i'w ddefnyddio gan y sector
- Dogfennau eraill fel y'u cyhoeddir

**Categori Ch: Eitemau fydd fel arfer yn Saesneg yn unig**

- Cyfrifon
- Taflenni cynhadledd a ddarperir gan gyrff neu unigolion eraill
- Dogfennau contract (ac eithrio sefyllfaoedd penodol)
- Gwybodaeth hanesyddol/archif
- Eitemau a ddosberthir ar ran sefydliadau eraill
- Papurau a gyflenwir gan drydydd partion nad ydynt o dan gontract
- Drafftiau gwaith





Noder: Mae'n annhebygol bod yr holl fathau o ddogfennau fydd yn cael eu cynhyrchu wedi'u cynnwys ar y rhestr hon. Bydd staff yn defnyddio eu barn i sicrhau categori addas ar sail gymharol er mwyn asesu a ddylai'r eitemau fod yn ddwyieithog neu beidio.

**Categori C: Meini prawf ar gyfer asesu addasrwydd a'r angen i gyfieithu dogfennau**

<i><b>Yr ystyriaethau a'r cwestiynau i fynd i'r afael â nhw</b></i>	<i><b>2 bwynt</b></i>	<i><b>1 pwynt</b></i>	<i><b>0 bwynt</b></i>
Nifer y copïau sy'n cael eu hargraffu (os yw'n fersiwn electronig yn unig, nifer ar y rhestr ddosbarthu/banc data neu'r trawiadau a amcangyfrifir)	Dros 250	50 – 250	Llai na 50
Hyd	Llai na 2000 o eiriau. Os yw'n llai na 250 o eiriau – ychwanegwch 1 pwynt ychwanegol.	2000 – 10,000 o eiriau	Dros 10,000 o eiriau
Graddfa dechnegol (h.y. a fyddai'n ddealladwy i ddarlennydd lleyg?)	Byddai	I ryw raddau	Na fyddai
Cynulleidfa darged	Aelodau o'r sector lle mae galw hysbys ac wedi'i sefydlu ar gyfer deunydd iaith Gymraeg	Rhanddeiliaid penodol y Cyngor Ymchwil neu ddefnyddwyr ymchwil ar draws pob sector	Arbenigwyr, sector neu randdeiliad arbennig lle mae'r galw lleiaf am yr iaith Gymraeg
Diben h.y. a fydd angen lledaenu'r eitem neu ei thrafod yn fewnol gan gyrff eraill; a/neu a yw wedi'i chynllunio i greu ymateb?	Ydy	O bosibl	Nac ydy
A fydd y ddogfen yn effeithio ar ddeunydd dilynol a/neu'n cael ei dyfynnu'n helaeth?	Bydd	I ryw raddau	Na fydd
Beth yw'r galw/diddordeb tebygol – yn seiliedig ar asesiad gwrthrychol a/neu brofiad yn y gorffennol? Neu beth yw mwyafrif y siaradwyr Cymraeg ymysg y rheiny sydd â diddordeb – yn seiliedig ar brofiad blaenorol?	Uchel (diddordeb yn gyffredinol iawn neu o ddiddordeb arbennig i	Canolig (grwpiau penodol yn unig)	Isel (grwpiau arbenigol yn unig)



	siaradwyr Cymraeg)		
Hirhoedledd – am ba hyd fydd y ddogfen yn weithredol?	Dros 2 flynedd	6 mis i 2 flynedd	Dros dro (llai na 6 mis)
Statws/proffil	Uchel – eitem yn y cyfryngau neu brif ddogfen	Canolig – rhywfaint o broffil yn y sector	Isel – dim llawer o broffil yn y sector
Natur y ddogfen – a oes safbwynt iaith Gymraeg amlwg?	Oes	Yn anuniongyrchol	Nac oes

Dylai defnyddwyr y matrices hwn roi marc yn y golofn bwyntiau ar gyfer pob ystyriaeth/cwestiwn ac yna cyfrif cyfanswm y pwyntiau. Bydd cyfanswm y 3 colofn pwyntiau yn rhoi graddfa blaenoriaeth ar gyfer cyfieithu'r ddogfen. Dylid graddio'r sgôr fel a ganlyn:

<b>Sgôr</b>	<b>Gradd</b>	<b>Camau gweithredu</b>
Dros 13	C1	Bydd y dogfennau hyn yn ddwyieithog
8-12	C2	Dylai'r dogfennau hyn fod yn ddwyieithog ond bydd p'un a ydynt neu beidio'n dibynnu ar argaeledd adnoddau cyfieithu ar yr adeg honno
Llai na 7	C3	Saesneg yn unig ar hyn o bryd, ond gellir eu hailbennu yn y dyfodol

Noder: Tybir y bydd hyn yn adlewyrchiad gwirioneddol o'r angen am ddogfennau dwyieithog ar gyfer UKRI yng Nghymru. Bydd staff yn defnyddio barn ofalus yn achos unrhyw eithriadau er mwyn sicrhau cymryd y camau cywir. Gofynnir am gyngor swyddogion Comisiynydd y Gymraeg os bydd angen.